**Crynodeb**

**Cyfarfod**
04/06/2026

**Cyfeirnod**
Medr/26/Min17

**Cofnodion 17eg cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 04 Mehefin 2026 yn Swyddfa Medr, Cwr y Ddinas, Caerdydd.**

**Yn bresennol:**
**Aelodau'r Bwrdd:**
Yr Athro Fonesig Julie Lydon (Cadeirydd)
James Owen (Prif Weithredwr)
Yr Athro David Sweeney (Dirprwy Gadeirydd)
Yr Athro Aaqil Ahmed
Daniel Beard (Eitemau 1-7 yn unig)
James Davies
Cerys Furlong
Jeff Greenidge
Dr Gwenllian Lansdown Davies (Eitemau 1-7 yn unig)
Rob Humphreys
Stephen Marston
Yr Athro Chris Millward
Deio Owen
Orla Tarn
Jayne Woods

**Staff:**
Rhian Edwards (Cyfarwyddwr Gweithredol, Polisi)
Bethan Evans (Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio a Chyllido)
Fran Hill (Prif Swyddog Gweithredu) (Eitemau 1-7 yn unig)
Kieron Rees (Cyfarwyddwr, Profiad Dysgwyr)
Natalie Williams (Uwch Reolwr Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd)
Steven Williams (Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd a Chynllunio Corfforaethol)
Kimberely Llewellyn
Gareth Lanagan
Bill Burson

**Eraill yn Bresennol:**

*Philip Blaker, Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru a Paul Bevan, Cadeirydd Cymwysterau Cymru*

**Ymddiheuriadau:**
Estelle Hart

## 1. Sylwadau agoriadol a datganiadau o fuddiant

1.1 Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu'r rhai a oedd yn bresennol.

1.2 Datganodd Rob Humphries fuddiant mewn perthynas â'i ymwneud blaenorol â Cymru Fyd-eang. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau eraill.

1.3 Cadarnhaodd Deio Owen ei fwriad i ymddiswyddo fel Aelod Cyswllt o'r Bwrdd. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei gyfraniad sylweddol i'r Bwrdd.

## 2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2026

2.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2026.

## 3. Materion yn codi a chamau gweithredu

3.1 Fe wnaeth y Bwrdd nodi'r Log Gweithredu wedi'i ddiweddaru a'r amlygrwydd gwell yr oedd yn ei roi i gynnydd. Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i benderfyniad blaenorol ynglŷn â hyblygrwydd mewn cyllidebau addysg bellach.

3.2 Cytunodd y Bwrdd y dylai'r dull gael ei fonitro a'i adolygu, yn enwedig mewn perthynas â'i effaith dymor hwy.

**Cam Gweithredu: Y Weithrediaeth i adrodd wrth y Bwrdd ar effaith hyblygrwydd mewn cyllid AB, gan gynnwys deilliannau a goblygiadau yn y dyfodol**

## 4. Adroddiad y Cadeirydd

4.1 Fe wnaeth y Bwrdd nodi'r diweddariad ar weithgarwch diweddar y Cadeirydd.

**Golygiad:**
Cynnwys wedi'i gadw'n ôl am bod yr wybodaeth wedi cael ei darparu'n gyfrinachol.

## 5. Diweddariad gan Gadeiryddion Pwyllgorau

5.1 Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau gan ei Bwyllgorau ar feysydd gweithgarwch allweddol, gan gynnwys llywodraethu, y gweithlu, ansawdd, ac ymchwil ac arloesi. Nododd weithgarwch parhaus i graffu ar drefniadau llywodraethu, risg a rheolaeth fewnol yn Medr, ochr yn ochr â gweithgarwch o ran y gweithlu a datblygu sefydliadol, gwaith i wella data perfformiad ac ansawdd darparwyr, ac ymgysylltu parhaus â'r sector.

5.2 Amlygwyd pwysigrwydd cryfhau ymgysylltiad â darparwyr a chynnal disgwyliadau cymesur ynglŷn â threfniadau llywodraethu yng nghyd-destun goruchwyliaeth reoleiddiol barhaus.

**Cam Gweithredu: Y Bwrdd i ystyried dulliau o ymgysylltu â chyrff llywodraethu colegau**.

**Golygiad:**
Mae cynnwys manwl wedi'i gadw'n ôl lle mae'n ymwneud â materion sy'n sensitif yn fasnachol neu wybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol.

## 6. Adroddiad y Prif Weithredwr

6.1 Cafodd y Bwrdd ddiweddariad am faterion sefydliadol a materion sy'n ymwneud â'r sector, gan gynnwys cynnydd gyda blaenoriaethau sefydliadol, datblygu'r system reoleiddio, a heriau a risgiau ar draws y sector cyfan. Bu'n trafod maint a chymhlethdod pwysau sy'n wynebu'r sector addysg drydyddol a phriod rolau Medr, Llywodraeth Cymru a sefydliadau o ran ymateb i'r pwysau hynny.

**Golygiad:**
Mae cynnwys manwl wedi cael ei gadw'n ôl dan eithriadau sy'n ymwneud â chynnal materion cyhoeddus yn effeithiol a gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol.

## 7 Map Trywydd Golwg Fyd-eang

7.1 Bu'r Bwrdd yn ystyried Map Trywydd Golwg Fyd-eang, sy'n nodi dull Medr o gefnogi ymgysylltu rhyngwladol ar draws y sector trydyddol.

7.2 Roedd y Bwrdd yn croesawu cyfeiriad y map trywydd ar y cyfan, fe amlygodd bwysigrwydd eglurder o ran cwmpas, effaith a buddiolwyr, ac fe bwysleisiodd yr angen am oruchwyliaeth gadarn ar risgiau a deilliannau.

**Penderfyniad: Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r map trywydd, yn amodol ar fireinio pellach i gryfhau'r eglurder ynghylch diben, cwmpas, effaith a rôl Medr.**

**Golygiad:**
Mae cynnwys manwl wedi cael ei gadw'n ôl oherwydd sensitifrwydd sy'n ymwneud â materion cyhoeddus, buddiannau masnachol a gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol, a chan y bwriedir cyhoeddi'r ddogfen yn y dyfodol.

## 8. Datganiad Polisi Buddsoddi

8.1 Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i Ddatganiad Polisi Buddsoddi arfaethedig, a oedd yn nodi sut y byddai Medr yn arfer ei bwerau cyllido.

8.2 Roedd y Bwrdd yn cefnogi'r newid tuag at ddull seiliedig-ar-fuddsoddi ac fe nododd yr angen i adlewyrchu'r cyd-destun cyllidebol a gallu Medr i ddefnyddio'r datganiad i flaenoriaethu, gan hefyd amlygu pwysigrwydd gwerthuso a gwerth am arian.

**Penderfyniad: Fe gymeradwywyd y Datganiad Polisi Buddsoddi ar gyfer ymgynghori.**

**Penderfyniad: Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i wneud mân newidiadau i ystyried trafodaeth y Bwrdd cyn ymgynghori.**

## 9. Cynllun Gweithredol 2026-27

9.1 Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'r Cynllun Gweithredol ac fe nododd y cynnydd o ran datblygu dull lefel-uchel, wedi'i symleiddio sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol.

9.2 Gofynnodd y Bwrdd am fwy o eglurder ynghylch cyflawni, dilyniannu ac effaith, a phwysleisiodd yr angen am drefniadau adrodd gwell i ategu goruchwyliaeth effeithiol.

**Cam Gweithredu: Y Weithrediaeth i ddiwygio trefniadau adrodd, gan gynnwys datblygu crynodeb lefel-uchel i ategu goruchwyliaeth gan y Bwrdd.**

**Golygiad:**
Cynnwys manwl wedi'i gadw'n ôl gan y bwriedir cyhoeddi'r ddogfen yn y dyfodol.

**10. Unrhyw fater arall**

Dim.

**11. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

16 Gorffennaf 2026 yn Swyddfa Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno.

**Papurau a ddarparwyd er gwybodaeth:**

**12. Cofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfod y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2026**

**13. Cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2026 ac 13 Ebrill 2026**

**14. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 06 Mawrth 2026**

**15. Cymwysterau Cymru**
*Philip Blaker, Prif Weithredwr a Paul Bevan, Cadeirydd*

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad gan Cymwysterau Cymru ar ei rôl a'i gyfrifoldebau statudol.

Fe wnaeth y ddau sefydliad gydnabod pwysigrwydd cydweithio parhaus ar draws Medr, Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru i ategu dull system-gyfan gydlynus.

Golygiad:
Mae cynnwys manwl wedi cael ei gadw'n ôl oherwydd sensitifrwydd sy'n ymwneud â materion cyhoeddus, buddiannau masnachol a gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol.